

Y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd Dysgu

Mawrth

19

Nodiadau o'r wythfed cyfarfod, a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2024. Cynhaliwyd y cyfarfod ar Zoom.



Pobl a ddaeth i'r cyfarfod

- **Sioned Williams AS** – Aelod o'r Senedd, Cadeirydd
- **Sara Pickard** – Mencap Cymru, Cyd-Ysgrifennydd
- **Samantha Williams** – Anabledd Dysgu Cymru, Cyd-Ysgrifennydd
- **Adrian Jones** – Cymdeithas Cyngori ac Adfocatiaeth Gogledd Cymru
- **Alexandra Badwi** – Hft
- **Amy Parsons** – Pobl
- **Bill Fawcett**
- **Bryony Dolby** – Hft
- **Celia Watson** – Cymdeithas Cyngori ac Adfocatiaeth Gogledd Cymru
- **Chris Davies** – Gwasanaethau Oedolion, Cyngor Caerdydd
- **Darren Smith**
- **Emma Alcock** – Pobl yn Gyntaf Rhondda Cynon Taf
- **Gaibhin McGranaghan** – United Response, Fy Mhleidlais, Fy Llais
- **Georgia Miggins**

- **Gwen Anslow** – Fforwm Cymru Gyfan
- **Helen Delargy** – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- **Ishbel Hansen** – Fforwm Rhieni a Gofalwyr Abertawe
- **Ismail Kaji** – Mencap, Fy Mhleidlais, Fy Llais
- **James Dash** – Pobl yn Gyntaf Sir Benfro
- **Joe Powell** – Pobl yn Gyntaf Cymru
- **Josh Cripps**
- **Julia Hawkins** – Hft
- **Julie Isaac-Evans** – TSW Training
- **Kai Jones** – Anabledd Dysgu Cymru
- **Kate Young** – Mencap Cymru
- **Kathryn Symmons** – Cyngor Abertawe
- **Kelly Stuart** – Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan
- **Louise Peck** – Eiriolaeth Eich Llais
- **Lucy Hinksman** – Pobl yn Gyntaf Sir Benfro
- **Lucy O’Leary** – Anabledd Dysgu Cymru
- **Marg McNeill** – See Around Britain
- **Mark Isherwood AS** – Aelod o'r Senedd
- **Matthew Dix** – Mencap
- **Nicholas Davies** – Ffederasiwn Rhieni Caerdydd a'r Fro
- **Ramona Murray** – Cyngor Conwy
- **Rhian Jones** – Drive
- **Richard Redmond** – Cyswllt Conwy
- **Sion Jones** – Mencap Cymru
- **Tracey Drew** – Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan
- **Tracy Thomas** – Pobl yn Gyntaf Sir Benfro
- **Victoria Waller** – Ffrindiau Gigiau Cymru
- **Zoe Richards** – Anabledd Dysgu Cymru



Pobl a ddywedodd nad oedden nhw'n gallu dod i'r cyfarfod

- **Elisa Vigna** – Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl (NCMH)

Gwybodaeth am y ddogfen hon



Fersiwn hawdd ei deall yw'r ddogfen hon. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n ei feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Gallai'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** fod yn anodd eu deall. Mae eglurhad ynghylch pob un o'r geiriau hyn wedi'i gynnwys mewn blwch o dan y gair. Gallwch weld beth yw ystyr yr holl eiriau **glas** ar **dudalennau 20 a 21**.

1. Croeso a chyflwyniadau



Croesawodd Sioned Williams, Aelod o'r Senedd a **Chadeirydd** y Grŵp Trawsbleidiol, bawb i'r cyfarfod.

Cadeirydd y grŵp yw'r person sy'n arwain y cyfarfodydd.

2. Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol



Eglurodd Sara Pickard o Mencap Cymru mai'r **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**, neu'r **AGM**, fyddai rhan nesaf y cyfarfod.

Mae **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**, neu **AGM**, yn gyfarfod arbennig y mae'n rhaid i gwmni, grŵp neu sefydliad ei gynnal bob blwyddyn.

Fel arfer, mae rheolau ynghylch yr hyn sy'n gorfod digwydd yn ystod y cyfarfod, fel cynnal pleidlais ar bobl neu bethau newydd.

3. Pleidleisio dros y cyd-ysgrifenyddion newydd

Roedd yn rhaid i'r grŵp bleidleisio er mwyn penderfynu pwy fyddai **cyd-ysgrifenyddion** y grŵp am y 12 mis nesaf.



Yr **ysgrifennydd** yw'r person neu'r sefydliad sy'n gyfrifol am drefniadau'r grŵp. Er enghraifft, mae'n trefnu cyfarfodydd ac yn dosbarthu agendâu.

Ceir **cyd-ysgrifenyddion** pan fydd mwy nag un person yn rhannu rôl yr **ysgrifennydd**.



Gofynnodd Sioned a hoffai unrhyw un fod yn **gyd-ysgrifennydd** ar gyfer y grŵp am y 12 mis nesaf.



Dywedodd Sara Pickard o Mencap Cymru a Sam Williams o Anabledd Dysgu Cymru eu bod yn dymuno bod yn **gyd-ysgrifenyddion** eto.



Pleidleisiodd y grŵp o blaid cael Sara a Sam fel **cyd-ysgrifenyddion** y grŵp am 12 mis arall.

4. Pleidleisio dros y Cadeirydd newydd



Yna, gofynnodd Sara a hoffai unrhyw Aelodau o'r Senedd fod yn **Gadeirydd** ar y grŵp am y 12 mis nesaf.



Dywedodd Sioned Williams ei bod yn dymuno **cadeirio'r** grŵp eto.



Pleidleisiodd Mark Isherwood AS ac aelodau eraill o'r grŵp o blaid cael Sioned fel **Cadeirydd** y grŵp am 12 mis arall.

5. Adroddiad blynyddol

**Adroddiad
Blynyddol**



Dywedodd Sam Williams wrth y grŵp y byddai'n anfon adroddiad blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol at y Senedd ar ôl y cyfarfod.

Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys y wybodaeth a ganlyn:



- Sawl cyfarfod a gynhaliwyd gan y grŵp yn ystod y 12 mis diwethaf
- Pwy oedd y bobl a ddaeth i'r cyfarfod
- Beth oedd testun y cyfarfodydd
- Faint o arian y mae'r grŵp wedi'i wario



Bydd Sam yn anfon yr adroddiad blynyddol at Sioned i'w wirio cyn ei anfon at y Senedd. Yna, bydd yn cael ei gyhoeddi at wefan y Senedd.

6. Cyflwyniad am y rheolau newydd o ran dulliau adnabod pleidleiswyr (voter ID)



Soniodd James Dash a Lucy Hinksman o **Pobl yn Gyntaf Sir Benfro** am y rheolau newydd ar ddangos cerdyn adnabod (ID) pan fyddwch yn pleidleisio mewn rhai etholiadau.



Maen nhw'n pryderu y gallai hyn ei gwneud hi'n fwy anodd i bobl ag anabledd dysgu bleidleisio.



Mae rhai pobl ag anabledd dysgu yn bryderus iawn ynghylch cael y cerdyn adnabod cywir ar gyfer pleidleisio.



Mae'n anodd dod o hyd i wybodaeth hawdd ei darllen am y newidiadau dan sylw, a pha fath o gerdyn adnabod sydd ei angen arnoch i bleidleisio.



Dywedodd Lucy fod pobl yn teimlo bod y drefn hon yn eu hamddifadu o'u hannibyniaeth gan y bydd angen cymorth arnynt i bleidleisio gan ddefnyddio cerdyn adnabod.



Dyma rai o'r pethau am ddulliau adnabod pleidleiswyr y mae pobl ag anabledd dysgu yn pryderu yn eu cylch:



- Pwy all weld y wybodaeth ar fy ngherdyn adnabod, a beth sy'n digwydd i'r wybodaeth honno?



- Mae'n dileu dewisiadau pobl, gan nad oes gan bawb gerdyn adnabod, ac nid yw pawb am ei ddangos.



- Gallai'r broses o gael gafael ar y math cywir o gerdyn adnabod fod yn ddrud. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd yn rhaid talu am basbort.



- Beth am **dwyll adnabod (ID fraud)**?

Mae twyll adnabod yn cyfeirio at sefyllfa lle mae person yn defnyddio eich cerdyn adnabod, gan esgus mai chi ydyw, ac yn torri'r gyfraith. Er enghraifft, gallai'r person ddwyn arian neu agor cyfrif yn eich enw chi.



- Sut y gallaf gadw fy nghardiau adnabod a gwybodaeth bersonol yn ddiogel?



Soniodd James a Lucy hefyd am rai o'r rhwystrau y mae pobl ag anabledd dysgu yn eu hwynebu wrth geisio pleidleisio:



- Pryderon ynglŷn â beth fydd yn digwydd pan fydd y person yn cyrraedd yr **orsaf bleidleisio**.

Gorsaf bleidleisio yw'r fan lle'r ydych yn mynd i bleidleisio mewn etholiadau. Gall fod mewn ysgol, neuadd eglwys, neu rywle arall yn eich cymuned leol.



- Problemau o ran sicrhau cludiant i'r **orsaf bleidleisio**.



- Hygyrchedd yr **orsaf bleidleisio**.



- Anawsterau o ran deall y wybodaeth a'r papurau pleidleisio.



- Gormod o bobl. Er enghraifft, yr angen i giwio cyn mynd i mewn, neu ddiffyg lle yn yr **orsaf bleidleisio**.



- Anawsterau o ran cofio enwau'r **ymgeiswyr** a'r wybodaeth amdanynt.

Ymgeiswyr yw'r bobl y gallwch bleidleisio drostynt mewn etholiad.



- Diffyg cymorth o ran pleidleisio.

7. Cyflwyniad am Fy Mhleidlais, Fy Llais



Soniodd Ismail Kaji a Gaibhin McGranaghan am y prosiect **Fy Mhleidlais, Fy Llais**.



Mae'r prosiect yn cael ei weithredu gan y sefydliadau a ganlyn: United Response, Dimensions UK, Mencap ac Ambitious About Autism.



Mae'r prosiect yn ceisio helpu mwy o bobl ag anabledd dysgu a phobl awtistig i gofrestru i bleidleisio yn etholiad cyffredinol nesaf y DU.



Dyma nodau'r prosiect:



- Rhoi gwybod i bawb fod gan bobl anabl yr hawl i bleidleisio.



- Sicrhau bod pleidleisio yn fwy hygyrch i bobl ag anabledd dysgu a phobl awtistig.



- Sicrhau bod mwy o bobl ag anabledd dysgu a phobl awtistig yn pleidleisio.



- Sicrhau bod mwy o bobl anabl yn cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth.



Soniodd Ishmail a Gaibhin am rai o'r rhwystrau y mae pobl anabl yn eu hwynebu wrth geisio pleidleisio:



- Nid yw'r wybodaeth am etholiadau, fel **manifestos**, bob amser ar gael ar ffurf hawdd ei darllen. Fel arall, nid yw'r fersiwn hawdd ei darllen ar gael tan yn ddiweddarach.

Mae **manifesto** yn rhestr o bethau y mae pobl neu **bleidiau gwleidyddol** yn dweud y byddant yn eu gwneud os byddant yn ennill yr etholiad.



Mae **plaid wleidyddol** yn grŵp o bobl sydd â syniadau tebyg am sut i redeg y wlad.

Y prif bleidiau yng Nghymru yw Llafur Cymru, y Ceidwadwyr Cymreig, Plaid Cymru a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru.



- **Nid yw gorsafydd pleidleisio** bob amser yn hygyrch.



- O bryd i'w gilydd, mae pobl yn teimlo bod eraill yn gwahaniaethu yn eu herbyn wrth iddynt geisio pleidleisio mewn **gorsaf bleidleisio**.



Mae'r prosiect Fy Mhleidlais, Fy Llais am weld pobl a sefydliadau yn rhannu gwybodaeth hygyrch am bleidleisio a hawliau pobl.



Mae'r prosiect am weld llawer o bobl ag anabledd dysgu a phobl awtistig yn cofrestru i bleidleisio yn yr etholiad cyffredinol nesaf.



Mae'r prosiect am weld pobl sy'n gweithio mewn **gorsafydd pleidleisio** yn cael hyfforddiant ynghylch sut i weithio gyda phobl ag anabledd dysgu a phobl awtistig.



Bydd y prosiect yn casglu gwybodaeth am brofiadau pobl ag anabledd dysgu wrth bleidleisio mewn etholiadau.



Bydd y prosiect yn defnyddio'r wybodaeth i geisio sicrhau bod pleidleisio yn broses haws i bobl ag anabledd dysgu a phobl awtistig yn y dyfodol.



Gallwch ddarllen llawer o wybodaeth hygyrch am etholiadau a phleidleisio ar wefan Fy Mhleidlais, Fy Llais www.myvotemyvoice.org.uk.



Fodd bynnag, nid yw'r holl wybodaeth ar gael yn Gymraeg, gan nad oes gan y prosiect ddigon o arian i gyfieithu'r cyfan.



Gall pobl a sefydliadau gofrestru i gefnogi Fy Mhleidlais, Fy Llais ar y wefan berthnasol: <https://www.myvotemyvoice.org.uk/sign-up-to-the-my-vote-my-voice-charter/>.

8. Cwestiynau a syniadau



Ar ôl y cyflwyniadau, gofynnodd rhai pobl gwestiynau, a rhannodd rhai eu syniadau.



Gofynnodd Sioned Williams faint o gynghorau lleol yng Nghymru oedd wedi ymrwymo i'r prosiect Fy Mhleidlais, Fy Llais.



Er nad oedd Gaibhin yn gwybod faint yn union, credai nad oedd llawer ohonynt hyd yn hyn.



Dywedodd Sioned y gallai'r grŵp ysgrifennu at yr holl gynghorau lleol yng Nghymru i ofyn iddynt gofrestru ar gyfer y prosiect Fy Mhleidlais, Fy Llais.



Byddai modd gofyn yn y llythyr a yw'r bobl sy'n gweithio mewn gorsafoedd pleidleisio yn cael hyfforddiant ynghylch sut i weithio gyda phobl ag anabledd dysgu a phobl awtistig.

Cytunodd Sioned hefyd i ysgrifennu at y prif **bleidiau gwleidyddol** yng Nghymru.



Bydd hi'n gofyn iddynt wneud ymrwymiad i ddsbarthu fersiynau hawdd eu darllen o'u **maniffestos** ar yr un pryd â'u **maniffestos** safonol ar gyfer etholiadau nesaf y Senedd.



Yn ogystal, dywedodd Sioned y byddai'n ysgrifennu at y Comisiwn Etholiadol yng Nghymru er mwyn gofyn i'r corff gynorthwyo'r gwaith o gyfieithu i'r Gymraeg y wybodaeth hawdd ei darllen am bleidleisio.



Dywedodd Te am Dri (*Tea at Three*), grŵp hunan-eiriolaeth sydd wedi'i leoli yng Ngwynedd, fod y wybodaeth hawdd ei darllen am bleidleisio ar wefan Llywodraeth y DU yn anodd ei ganfod a'i deall.



Yn ogystal, dywedodd y grŵp y gall pleidleisio mewn etholiadau fod yn ddryslyd ac yn anodd.

Yn ôl y grŵp, dylai'r **papurau pleidleisio** fod yn hawdd eu darllen, gyda lluniau o bob **ymgeisydd** arnynt.



Mae **papur pleidleisio** yn ddarn o bapur sy'n cynnwys rhestr o ymgeiswyr y gallwch bleidleisio drostynt mewn etholiad.

Rhaid i chi roi croes neu farc wrth ymyl enw'r person rydych am bleidleisio drosto.



Yn ôl y grŵp, dylai'r **pleidiau gwleidyddol** wneud fideos hygyrch sy'n egluro eu polisiau, gan helpu pobl i ddewis pwy i bleidleisio drostynt.

9. Unrhyw fater arall, a syniadau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol



Cynhelir cyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol ar **26 Mehefin 2024**, rhwng 12.15 a 13.15. Cynhelir y cyfarfod ar Zoom.



Bydd Sam Williams yn dosbarthu gwybodaeth am sut i gadw lle ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Bydd hyn ar gael hefyd ar wefan Anabledd Dysgu Cymru:

<https://www.ldw.org.uk/cy/project/grwp-trawsbleidiol-ar-anabledd-dsygu/>.



Gofynnodd Sioned i aelodau'r grŵp anfon unrhyw syniadau am bethau i siarad amdanynt mewn cyfarfodydd yn y dyfodol at Sam Williams, a hynny ar ffurf e-bost:

samantha.williams@ldw.org.uk.



Diolchodd Sara i James, Lucy, Ismail a Gaibhin am eu cyflwyniadau.



Diolchodd hefyd i bawb am ddod i'r cyfarfod.



Gallwch ddod o hyd i fersiynau hawdd eu darllen o holl agendâu'r grŵp trawsbleidiol, ynghyd â'r holl nodiadau ynghylch ei gyfarfodydd, yma:

<https://www.ldw.org.uk/cy/project/grwp-trawsbleidiol-ar-anabledd-dsygu/>

Geiriau anodd

Cadeirydd

Cadeirydd y grŵp yw'r person sy'n arwain y cyfarfodydd.

Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol neu AGM

Mae Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, neu AGM, yn gyfarfod arbennig y mae'n rhaid i gwmni, grŵp neu sefydliad ei gynnal bob blwyddyn.

Fel arfer, mae rheolau ynghylch yr hyn sy'n gorfod digwydd yn ystod y cyfarfod.

Ysgrifennydd neu gyd-ysgrifennydd

Yr ysgrifennydd yw'r person neu'r sefydliad sy'n gyfrifol am drefniadau'r grŵp. Er enghraifft, mae'n trefnu cyfarfodydd ac yn dosbarthu agendâu.

Ceir cyd-ysgrifennyddion pan fydd mwy nag un person yn rhannu rôl yr ysgrifennydd.

Twyll Adnabod (ID fraud)

Mae twyll adnabod yn cyfeirio at sefyllfa lle mae person yn defnyddio eich cerdyn adnabod, gan esgus mai chi ydyw, ac yn torri'r gyfraith. Er enghraifft, gallai'r person ddwyn arian neu agor cyfrif yn eich enw chi.

Gorsaf bleidleisio

Gorsaf bleidleisio yw'r fan lle'r ydych yn mynd i bleidleisio mewn etholiadau. Gall fod mewn ysgol, neuadd eglwys, neu rywle arall yn eich cymuned leol.

Ymgeiswyr

Ymgeiswyr yw'r bobl y gallwch bleidleisio drostynt mewn etholiad.

Maniffesto

Mae maniffesto yn rhestr o bethau y mae pobl neu bleidiau gwleidyddol yn dweud y byddant yn eu gwneud os byddant yn ennill yr etholiad.

Plaid wleidyddol

Mae plaid wleidyddol yn grŵp o bobl sydd â syniadau tebyg am sut i redeg y wlad.

Y prif bleidiau yng Nghymru yw Llafur Cymru, y Ceidwadwyr Cymreig, Plaid Cymru a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru.

Papur pleidleisio

Mae papur pleidleisio yn ddarn o bapur sy'n cynnwys rhestr o ymgeiswyr y gallwch bleidleisio drostynt mewn etholiad.

Rhaid i chi roi croes neu farc wrth ymyl enw'r person rydych am bleidleisio drosto.